



CANOLFAN GELFYDDYDOL MINERVA

AMODAU LLOGI SAFONOL

Mae'r amodau safonol hyn yn berthnasol i bawb sy'n llogi Canolfan Gelfyddydol Minerva. Os oes unrhyw amheuan gan y Llogwr am ystyr y canlynol, cysylltwch â chynrychiolydd y Ganolfan ar unwaith.

1. Goruchwyliaeth

Yn ystod y cyfnod llogi, dylai'r Llogwr fod yn gyfrifol am: oruchwylio'r eiddo, y deunyddiau a'r cynnwys; eu gofal, eu diogelu rhag difrod pa bynnag mor fach ydyw neu newid o unrhyw fath; ac ymddygiad pob unigolyn sy'n defnyddio'r eiddo beth bynnag yw eu rôl, gan gynnwys goruchwylio trefniadau parcio ceir yn gywir er mwyn osgoi rhwystr ar y briffordd. Fel y cyfeirir gan gynrychiolwyr Canolfan Gelfyddydol Minerva, dylai'r Llogwr wneud yn iawn neu dalu am bob difrod (gan gynnwys difrod damweiniol) i'r eiddo neu i'r gosodiadau neu gynnwys, ac am golli unrhyw gynnwys.

2. Y Defnydd o'r Eiddo

Ni ddylai'r Llogwr ddefnyddio'r eiddo at unrhyw ddiben oni bai'r hyn a ddisgrifir yn y ffurflen llogi ac ni ddylai ganiatáu defnyddio'r eiddo ar gyfer unrhyw ddiben anghyfreithlon nac mewn unrhyw ffordd anghyfreithlon na gwneud unrhyw beth na dod ag unrhyw beth ar yr eiddo a fyddai'n ei beryglu neu'n gwneud unrhyw bolisiau yswiriant yn annilys mewn perthynas â'r eiddo. Ni ddylid caniatáu yfed alcohol ar yr eiddo heb ganiatâd ysgrifenedig.

3. Hapchwarae, Betio a Loteriau

Dylai'r Llogwr sicrhau bod dim yn cael ei wneud ar yr eiddo neu mewn perthynas ag ef sy'n groes i'r gyfraith mewn perthynas â hapchwarae, betio a loteriau.

4. Trwyddedau

Ni ddylid defnyddio'r eiddo ar gyfer gweithgareddau trwyddedig, e.e. Perfformio Dramâu, Perfformio Cerddoriaeth Fyw, Cerddoriaeth wedi'i Recordio, Perfformio Dawns, Adloniant Tebyg Arall, Darparu Cyfleusterau Cerddorol, Darparu Cyfleusterau Dawns, Darparu Cyfleusterau (Eraill) oni bai fod caniatâd arbennig wedi'i gyflwyno gan y Ganolfan a bod trwydded briodol wedi'i chyhoeddi gan Gyngor Sir Powys.

5. Cydymffurfiaeth Diogelwch Cyhoeddus

Dylai'r Llogwr gydymffurfio â'r holl amodau a rheoliadau a wnaed mewn perthynas â'r eiddo gan yr Awdurdod Tân, yr Awdurdod Lleol, yr Awdurdod Trwyddedu neu fel arall, yn enwedig mewn perthynas ag unrhyw ddigwyddiad sy'n cyfansoddi adloniant a reoleiddir, lle y gwerthir alcohol neu ei ddarparu, neu lle y bydd plant yn mynychu.

Wedi llenwi'r ffurflen llogi, bydd y Llogwr yn sicrhau eu bod wedi derbyn cyfarwyddyd ar y materion canlynol:

- Y camau gweithredu i'w cymryd mewn achos o dân. Mae hyn yn cynnwys galw'r Frigâd Dân a gadael y Ganolfan.
- Lleoliad y cyfarpar tân a'r defnydd ohonynt.
- Llwybrau dianc a'r angen i'w cadw'n glir.
- Dull o weithredu cloeon drysau allanfa.
- Gwerthfawrogiad o bwysigrwydd unrhyw ddrysau tân a chau'r holl ddrysau tân ar adeg pan fydd tân.

6. Ffyrdd o Ddianc

Rhaid cadw drysau allanfa blaen ac ochr yr eiddo yn rhydd o rwystr a rhaid iddynt fod ar gael ar unwaith ar gyfer allanfa di-oed a rhydd i'r cyhoedd.

7. Achosion o Dân

Dylid galw'r Frigâd Dân i unrhyw achos o dân, pa bynnag mor fychan ydyw, a dylid rhoi manylion am hynny i gynrychiolwyr y Ganolfan.

8. Iechyd a Hylendid Health and Hygiene

Wrth ddefnyddio'r Gegin, dylai'r Llogwr arsylwi'r holl ddeddfwriaeth a rheoliadau hylendid ac iechyd bwyd perthnasol wrth baratoi, gweini neu werthu bwyd. Yn benodol, rhaid rhoi cynnyrch llaeth, llysiau a chig ar yr eiddo mewn oergell a'u storio i gydymffurfio gyda Rheoliadau Tymheredd Bwyd.

9. Diogelwch Cyfarpar Trydanol

Dylai'r Llogwr sicrhau fod unrhyw gyfarpar trydanol y byddant yn dod gyda hwy i'r eiddo ac yn ei ddefnyddio mewn cyflwr gweithio da a diogel, ac y defnyddir y cyfarpar mewn ffordd ddiogel yn unol â'r Rheoliadau Trydan yn y Gweithle 1989. Rhaid i unrhyw gyfarpar trydanol fod wedi cael profion PAT wedi'u cynnal arnynt.

10. Indemniad/lawndal

(a) Dylai'r Llogwr ddarparu indemniad a digolledu gweithwyr, gwirfoddolwyr, asiantau a gwahoddedigion Canolfan Gelfyddydol Minerva yn erbyn (a) y gost o atgyweirio unrhyw ddifrod a wneir i unrhyw ran o'r eiddo gan gynnwys cwrtill yr eiddo (b) pob hawliad, colled, difrod a chostau mewn perthynas â difrod neu gollu eiddo neu anaf i unigolion yn deillio o ddefnyddio'r eiddo (gan gynnwys storio cyfarpar) gan y Llogwr, ac (c) yr holl hawliadau, colledion a chostau a ddioddefir neu a ddaw yn sgil unrhyw niwsans a achosir gan drydydd parti o ganlyniad i'r defnydd o'r eiddo gan y Llogwr.

(b) Dylai'r Llogwr drefnu yswiriant digonol i yswirio'r Llogwr ac aelodau o sefydliad y Llogwr a gwahoddedigion yn erbyn atebolrwydd y Llogwr dan baragraff 10(a) a'r holl hawliadau sy'n deillio o ganlyniad i'r llogi. Ar alwad, dylai'r llogwr gyflwyno'r polisi a derbynneb gyfredol neu dystiolaeth arall o'r yswiriant i gynrychiolwyr y Ganolfan. Bydd methu â chyflwyno polisi o'r fath a thystiolaeth o yswiriant yn arwain at annilysu'r llogi ac yn galluogi'r Ganolfan i ail-logi'r eiddo i logwr arall.

Mae'r Ganolfan wedi'i hyswirio yn erbyn unrhyw hawliadau yn deillio o esgeulustod ei hunan.

11 . Damweiniau a Digwyddiadau Peryglus

Rhaid i'r Llogwr adrodd i Ganolfan Gelfyddydol Minerva am bob damwain sy'n golygu anaf i'r cyhoedd cyn gynted ag sy'n bosibl a llenwi'r adran berthnasol o fewn llyfr damweiniau'r Ganolfan, a leolir ar ddesg y dderbynfa. Rhaid adrodd hefyd am fethiant unrhyw gyfarpar sy'n eiddo i'r Ganolfan neu gyfarpar a ddaw gyda'r Llogwr i'r Ganolfan cyn gynted ag sy'n bosibl hefyd.

12. Goleuadau

Ni ddylai'r Llogwr newid na symud unrhyw fylbiau na lampau sy'n eiddo i'r Ganolfan am resymau lechyd a Diogelwch. Os bydd angen ail-leoli neu newid bylbiau neu lampau, rhaid cysylltu cynrychiolydd o'r Ganolfan i gyflawni'r gwaith hwn.

13. Gwresogi

Dylai'r Llogwr sicrhau na ddylid defnyddio cyfarpar gwresogi sydd heb ei awdurdodi ar yr eiddo pan mae ar agor i'r cyhoedd heb ganiatâd y pwyllgor rheoli.

14. Ymddygiad Meddwol ac Afreolus a Chyflenwi Cyffuriau Anghyfreithlon

Er mwyn osgoi aflonyddu ar gymdogion i'r Ganolfan ac osgoi ymddygiad treisgar neu droseddol, dylai'r Llogwr sicrhau fod gofal yn cael ei gymryd i osgoi yfed alcohol yn ormodol. Ni ddylid caniatáu ymddygiad meddwol ac afreolus ar yr eiddo nac o fewn cyffiniau'r Ganolfan. Ni ddylid gweini alcohol i unrhyw un lle mae amheuaeth fod yr unigolyn yn feddw neu i unrhyw un lle bo amheuaeth eu bod dan 18 mlwydd oed. Dylid gofyn i unrhyw un lle bo amheuaeth eu bod yn feddw, dan ddylanwad cyffuriau neu'n ymddwyn mewn ffordd dreisgar neu afreolus i adael yr eiddo. Ni ddylid dod ag unrhyw gyffuriau anghyfreithlon ar yr eiddo.

15. Cydymffurfiaeth â Deddf Plant 1989

Dylai'r Llogwr sicrhau fod unrhyw weithgareddau i blant dan wyth mlwydd oed yn cydymffurfio â darpariaethau Deddf Plant 1989 ac mai dim ond unigolion addas a chywir sydd wedi pasio archwiliadau'r Gwasanaeth Datgeli a Gwahardd (DBS) ddylai gael mynediad at y plant (gall yr archwiliadau fod yn gymwys lle mae plant dros wyth mlwydd oed ac oedolion sy'n agored i niwed yn cymryd rhan mewn gweithgareddau). Dylai'r Llogwr gyflwyno copi o'u Polisi Amddiffyn Plant i'r Ganolfan ar gais.

16. Gosod Posteri yn Anghyfreithlon

Ni ddylai'r Llogwr gynnal na chaniatáu gosod posteri yn anghyfreithlon mewn unrhyw ddigwyddiad a gynhelir yn yr eiddo, a dylai diogellu a pharhau i

ddigolledu pob aelod o'r pwyllgor rheoli yn erbyn pob gweithred, hawliad a gweithrediadau yn deillio o unrhyw achos o dorri'r amod hwn.

17. Gwerthu Nwyddau

Dylai'r Llogwr, os yw'n gwerthu nwyddau ar yr eiddo, gydymffurfio â Chyfreithiau Masnachu Teg ac unrhyw godau ymarfer a ddefnyddir mewn cysylltiad ag arwerthiannau o'r fath.

18. Arddangosfeydd

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cadw'r hawl i symud eitemau a/neu ddelweddau a all dramgwyddo ymwelwyr ag arddangosfeydd neu ddigwyddiadau yn eu barn hwy.

19. Canslo

Os yw'r Llogwr yn dymuno canslo'r llogi cyn dyddiad y digwyddiad, rhaid rhoi rhybudd o bedwar diwrnod ar ddeg yn ysgrifenedig neu ni fydd ad-daliad yn cael ei roi, heblaw mewn amgylchiadau arbennig ar ddisgresiwn y Ganolfan. Mae'r Ganolfan yn cadw'r hawl i ganslo llogi'r eiddo trwy rybudd ysgrifenedig i'r Llogwr petai:

(a) Y Ganolfan yn ystyried yn rhesymol y bydd (i) llogi o'r fath yn arwain at dorri amodau trwyddedu, os yn berthnasol, neu ofynion cyfreithiol neu statudol eraill, neu (ii) y bydd gweithgareddau anghyfreithlon neu anaddas yn cael eu cynnal ar yr eiddo o ganlyniad i'r llogi hwn.

(b) Bod yr eiddo yn dod yn anaddas i'w ddefnyddio gan y Llogwr.

Mewn unrhyw achos o'r fath, bydd hawl gan y Llogwr i ad-daliad o unrhyw arian sydd wedi'i dalu eisoes, ond ni ddylai'r Ganolfan fod yn atebol i'r Llogwr am unrhyw golled neu ddifrod uniongyrchol neu anuniongyrchol sy'n deillio o hynny mewn unrhyw ffordd o gwbl.

20. Diwedd y Cyfnod Llogi

Bydd y Llogwr yn gyfrifol am adael yr eiddo a'r ardal gyfagos mewn cyflwr glân a thaclus. Mae cadeiriau a byrddau i gael eu pentyrru yn y lleoedd dynodedig. Pan fo angen i gynrychiolydd y Ganolfan dreulio hirach nag un awr yn adfer yr eiddo i'w daclusrwydd a hylendid gwreiddiol, bydd tâl ychwanegol yn cael ei godi ar ddisgresiwn y Ganolfan.

21. Sŵn

Dylai'r Llogwr sicrhau fod y sŵn isaf posibl yn cael ei wneud wrth gyrraedd a gadael, yn enwedig yn hwyr y nos ac yn gynnar yn y bore.

22. Cyfarpar sy'n cael ei Storio

Nid yw'r Ganolfan yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw gyfarpar sy'n cael ei storio nac eiddo arall a ddaw i'r adeilad neu ei adael yno, ac mae'r holl atebolrwydd am golled neu ddifrod yn cael ei eithrio trwy hyn. Rhaid symud yr holl gyfarpar ac eiddo arall tuag at ddiwedd pob cyfnod llogi.

23. Dim Hawliau

Mae'r Cytundeb Llogi yn cynnwys caniatâd i ddefnyddio'r eiddo yn unig ac nid yw'n cyflwyno unrhyw denantiaeth na hawl meddiannu arall i'r Llogwr.

24. Y Defnydd o'r Gegin

Mae nifer cyfyngedig o lestri, cyllyll a ffyrc ar gael i'w defnyddio gan Logwyr sy'n defnyddio'r gegin. Bydd manylion yr offer sydd ar gael yn cael eu cyflenwi wedi cadarnhau'r llogi. Cyfrifoldeb y Llogwr yw sicrhau fod digon o lestri, cyllyll a ffyrc ar gyfer y cyfnod llogi.

25. Amser Llogi

Bydd tâl yn cael ei godi ar y Llogwr o'r amser y bydd yn cael mynediad at yr eiddo tan yr amser gadael. Rhaid gadael yr eiddo wedi i'r amser llogi ddod i ben. Bydd methu â gwagio a gadael yr eiddo yn arwain at dâl ychwanegol yn cael ei godi yn unol â graddfa taliadau'r Ganolfan (isafswm o hanner awr).

26. Llogi ar gyfer Llogwr yn unig

Nid oes hawl awtomatig i ddefnyddio unrhyw ran o'r ganolfan gan y llogwr yn unig. Bydd gofyniad i ganiatáu mynediad i logwyr/ defnyddwyr / gwirfoddolwyr eraill at gyfleusterau megis y swyddfa, y gegin a'r toiledau. Efallai y bydd gofyniad i rannu gofod gyda defnyddwyr eraill lle na fydd hyn yn tarfu ar y naill logwr na'r llall (megis cyfarfod yng ngofod yr arddangosfa sefydlog). Bydd llogwyr yn cael gwybod o flaen bob tro os oes unrhyw drefniadau o'r fath yn cael eu cynllunio.

27. Mynediad

Dylai swyddogion yr heddlu a swyddogion awdurdodedig o Gyngor y Dref, y Gwasanaeth Tân, Adran Iechyd yr Amgylchedd a'r Adran Safonau Masnach gael mynediad am ddim at bob rhan o'r eiddo yn ystod y cyfnod llogi.

28. Anghydfodau

Os na ellir datrys anghydfodau rhwng y Llogwr a'r Ganolfan trwy drafodaeth rhwng y partion, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at gyfryngwr annibynnol y cytunir arno/arni gan y ddau barti.

29. Capasiti a Goruchwyliaeth

(a) Yn ychwanegol at y Llogwr, dylid cael stiwardiaid ar ddyletswydd yn yr eiddo i helpu pobl sy'n cael mynediad ac yn gadael, ac ni ddylai'r un ohonynt fod yn iau na 18 mlwydd oed. Dylai'r holl unigolion ar ddyletswydd fod wedi derbyn cyfarwyddiadau ynghylch eu cyfrifoldebau hanfodol mewn achos o dân neu argyfyngau eraill, gan gynnwys sylw i bobl anabl, lleoliad cyfarpar ymladd tân sydd ar gael a'u defnydd, sut i ffonio'r Frigâd Dân a'r weithdrefn i adael yr adeilad.

(b) Ni ddylai nifer y bobl ar yr eiddo fod yn fwy na 100.

Ni ddylai nifer y stiwardiaid ar ddyletswydd fod yn llai na 2 stiward sy'n oedolyn ar gyfer hyd at 100 o bobl. Mae angen gweinyddion ychwanegol os yw'r gynulleidfa'n iau na 16 mlwydd oed gan fwyaf, neu os oes nifer o bobl anabl yn bresennol.

NODER Pandemig Covid 19 – gall amodau arbennig fod yn berthnasol yn sgil rheoleiddio gan Lywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU. Gwiriwch gyda chynrychiolydd y Ganolfan cyn dechrau'r cyfnod llogi.

30. Oedran

Mae'r Llogwr, nad yw'n unigolyn dan 18 mlwydd oed, yn derbyn cyfrifoldeb drwy hyn am fod yn gyfrifol am yr eiddo ac yn bresennol yno ar bob adeg pan mae'r cyhoedd yn bresennol.

31. Perfformiadau Peryglus ac Anaddas

Ni ddylid rhoi perfformiadau sy'n golygu perygl i'r cyhoedd, neu berfformiadau o natur rywiol amlwg ac eglur.

32. Taliadau Llogi a Hyd y cyfnod Llogi

Un diwrnod Penwythnos (2 ddiwrnod) Un wythnos

Dwy wythnos

Tair wythnos

Pedair wythnos

MAE'R HOLL DALIADAU YN DESTUN AROLWG HEB RYBUDD

Oriel Unigol

£75
£140
£330
£570
£900
£1200

Y ddwy Oriel

Yr Ystafell Waith

Fesul sesiwn Bore	£45 £45 £50	£75	£25 £25 £50
Prynhawn Noswaith		£75 £100	

£140 £60 £220 £80 £550

£1000
£1450
£2000

Mae lle ar gyfer cyfarfodydd bychain/byr ar gael am £8.00 yr awr.

Gellir codi byrddau arddangos gan gynrychiolydd y Gymdeithas Gwiltiau am gost o £30 yr awr, gyda chynlluniau i'w darparu gan y Llogwr wrth logi'r Ganolfan. Bydd cyfraddau masnachol yn 20% ychwanegol ym mhob achos.

33. Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus

Mae gofyn i bob llogwr rheolaidd gael polisi Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a rhaid cyflwyno copïau diweddar o'r polisi i'r Ganolfan.

35. Cynrychiolwyr y Ganolfan: Trefniadau galw allan

Mewn achos o argyfwng yn unig, defnyddiwch un o'r rhifau ffôn hyn gan ffonio yn y drefn ganlynol:-

- Sheila Davis 01686 414981
- Lisa Arundale 01686 413608

Lle bo'r rheswm am alw cynrychiolydd allan ym marn y Ganolfan yn gyfrifoldeb/bai'r Llogwr, bydd tâl yn cael ei godi. Fe fydd isafswm tâl galw allan o £35. Yn dilyn hyn, bydd £25 yn cael ei godi am bob 30 munud neu ran ohono ar gyfer yr amser y bydd cynrychiolydd y Ganolfan ar y safle. Yn ychwanegol at hyn, bydd ffioedd unrhyw gontractwyr allanol yn cael eu trosglwyddo i'r Llogwr.

34 Llogi'r Ganolfan a thaliadau

Mae ffurflen llogi i'w llenwi. Bydd anfoneb yn cael ei chyhoeddi sy'n manylu ar yr holl daliadau. Bydd y llogi'n cael ei gadarnhau wedi derbyn taliad yn llawn neu flaendal a gytunwyd ar y cyd gyda dyddiad i dderbyn y balans. Gellir trafod trefniadau ar gyfer taliadau misol gyda digwyddiadau rheolaidd. Rhaid rhoi rhybudd o bedwar diwrnod ar ddeg yn ysgrifenedig ar unrhyw ganslo neu ni roddir ad-daliad, ac eithrio mewn amgylchiadau arbennig yn ôl disgrisiwn y Ganolfan.